Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Fframweithiau Cyffredin

Mai 2023

1. Y cefndir

Rhaglen Fframweithiau Cyffredin y DU

1. Yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE, cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i greu dulliau gweithredu cyffredin ledled y DU – neu 'fframweithiau' – mewn meysydd polisi a lywodraethwyd ynghynt gan gyfraith yr UE, ac sydd o fewn cymhwysedd y llywodraethau neu'r deddfwrfeydd datganoledig. Yn 2017, dyma'r diffiniad a roddodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig o fframwaith cyffredin:

> *"A framework will set out a common UK, or GB, approach and how it will be operated and governed. This may consist of common goals, minimum or maximum standards, harmonisation, limits on action, or mutual recognition, depending on the policy area and the objectives being pursued. Frameworks may be implemented by legislation, by executive action, by memorandums of understanding, or by other means depending on the context in which the framework is intended to operate."*[1]

2. Roedd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig o'r farn bod angen fframweithiau cyffredin i wneud fel a ganlyn:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, gan gydnabod achosion o ymwahanu o ran polisi;
- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- sicrhau y gall y DU drafod cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol newydd, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith;
- galluogi adnoddau cyffredin i gael eu rheoli;
- gweinyddu a darparu mynediad at gyfiawnder mewn achosion sydd ag elfen drawsffiniol; a

[1] Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) (Saesneg yn unig), 16 Hydref 2017, Hysbysiad

- gwarchod diogelwch y DU.[2]

3. Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddadansoddiad o feysydd o gyfraith yr UE sy'n cyd-blethu â meysydd o gymhwysedd datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan ddod i'r casgliad bod 40 o feysydd polisi yr oedd angen creu fframweithiau cyffredin ar eu cyfer.[3] Yn dilyn ystyriaeth bellach, canfu fod 33 o feysydd polisi perthnasol, yr oedd 26 ohonynt yn ymyrryd â materion o fewn cymhwysedd datganoledig yng Nghymru.[4]

4. Dechreuodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gytuno ar fframweithiau cyffredin dros dro yn 2020, gan barhau i drafod y materion trawsbynciol a fyddai wrth wraidd y rhaglen. Roedd y materion hyn yn cynnwys y ffordd y mae'r fframweithiau cyffredin yn rhyngweithio â *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* a Phrotocol Gogledd Iwerddon.[5]

5. Yn 2021, daeth y llywodraethau i gytundeb ynghylch y materion trawsbynciol a oedd wrth wraidd y rhaglen fframweithiau cyffredin. Gwnaethant hefyd ymrwymo i adrodd ar y fframweithiau yn y dyfodol.[6]

6. Erbyn mis Mawrth 2022, o'r 26 o fframweithiau sy'n berthnasol i Gymru:

- roedd un wedi ei gwblhau;
- roedd 23 ar waith dros dro; ac
- roedd dau yn cael eu datblygu.[7]

Craffu ar fframweithiau cyffredin

7. Mae deddfwrfeydd y DU wedi bod yn craffu ar fframweithiau cyffredin dros dro wrth iddynt gael eu cyhoeddi, gan wneud argymhellion o ran eu cynnwys i'w priod lywodraethau.

---

[2] Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) (Saesneg yn unig), 16 Hydref 2017, Hysbysiad
[3] Llywodraeth y DU, Dadansoddiad o Fframweithiau 2020 (Saesneg yn unig), Medi 2020
[4] Llywodraeth y DU, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin: 26 Medi 2020 i 25 Rhagfyr 2020 (Saesneg yn unig), Mawrth 2021, paragraff 1.34
[5] Llythyr oddi wrth Chloe Smith AS, y Gweinidog Gwladol dros y Cyfansoddiad a Datganoli, at Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi (Saesneg yn unig), 23 Rhagfyr 2020
[6] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Tachwedd 2021
[7] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Fframweithiau Cyffredin - Crynodeb o'r Cynnydd Diweddaraf, 30 Mawrth 2022

8. Mae disgwyl i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gytuno ar fersiynau terfynol o'r fframweithiau cyffredin i'w cyhoeddi ar ôl i'r deddfwrfeydd graffu arnynt.

9. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi dweud na ellir rhoi'r fframweithiau cyffredin ar waith yn derfynol heb fod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ei le, ac na ellir cwblhau'r gwaith craffu heb fod Cynulliad Gogledd Iwerddon yn rhan o'r broses.[8] Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn yr un modd y bydd llywodraethau'r DU "am ddeall barn pob deddfwrfa cyn penderfynu'n derfynol ar newidiadau i fframweithiau unigol" a fydd yn deillio o argymhellion a wneir gan ddeddfwrfeydd.[9]

10. Mae pob deddfwrfa yn y DU wedi mabwysiadu dull gwahanol o graffu ar fframweithiau cyffredin. Er enghraifft, mae Tŷ'r Arglwyddi wedi sefydlu Pwyllgor penodol a fydd yn craffu ar y rhaglen fframweithiau cyffredin ac yn craffu ar fframweithiau cyffredin dros dro unigol. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi dau adroddiad hyd yn hyn.[10]

11. Yn y Senedd, mae'r pwyllgorau polisi a ganlyn wedi bod yn craffu ar fframweithiau unigol sy'n berthnasol i Gymru:

- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig;
- y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus;
- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith;
- y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

12. Mae'r pwyllgorau hyn wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gynnwys y fframweithiau; rhestrir yr adroddiadau a'r ohebiaeth berthnasol yn yr Atodiad.

---

[8] Llywodraeth y DU, Ymateb y Llywodraeth i adroddiad Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi: 'Fframweithiau Cyffredin: cyfle heb ei gyflawni?' (Saesneg yn unig), Tachwedd 2022, paragraff 13

[9] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Fframweithiau Cyffredin – Crynodeb o'r Cynnydd Diweddaraf, 30 Mawrth 2022

[10] Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin: Cyhoeddiadau (Saesneg yn unig)

13. Tra bod y pwyllgorau polisi wedi bod yn craffu ar fframweithiau dros dro unigol, rydym wedi bod yn goruchwylio'r rhaglen fframweithiau cyffredin gyffredinol fel y mae'n gymwys i Gymru.

14. Gan fod y Senedd bellach wedi craffu ar y rhan fwyaf o'r fframweithiau cyffredin dros dro sy'n gymwys i Gymru, rydym wedi penderfynu cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r materion trawsbynciol sydd wedi codi o'r gwaith craffu hwn hyd yma.

2. Goblygiadau ar gyfer llunio polisïau datganoledig

15. Mae pob un o bwyllgorau'r Senedd a fu'n ystyried fframweithiau cyffredin wedi mynegi pryderon am eu potensial i gyfyngu ar rôl ymarferol Llywodraeth Cymru a'r Senedd ym maes deddfu a llunio polisïau i Gymru.

16. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi nodi pryderon gan ei randdeiliaid ynghylch effaith fframweithiau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Llywodraeth Cymru. Dyma a nododd:

> *"... nid yw'n glir sut gall y fframweithiau cyffredin osod prosesau i'r llywodraethau wneud penderfyniadau ar y cyd am sut i ddefnyddio eu pwerau, ac ar yr un pryd beidio ag effeithio ar sut bydd y Senedd a Llywodraeth Cymru yn arfer y pwerau hynny."*[11]

17. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd y fframweithiau cyffredin hyn yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru o ran deddfu a llunio polisïau i Gymru.[12]

---

[11] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, paragraff 30

[12] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 4; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 14 Mehefin 2022, Argymhelliad 3; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 11

18. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw derfynau posibl i'w hannibyniaeth reoleiddiol o ganlyniad i fframweithiau cyffredin.[13]

19. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframweithiau cyffredin hyn i'w gwneud yn glir na ddylai newidiadau i gyfraith a pholisi, mewn meysydd lle'r oedd gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd rheoleiddiol pan oedd y DU yn un o Aelod-Wladwriaethau'r UE, fod yn rhwym i ofynion i wneud penderfyniadau ar y cyd na'n rhwym i'r broses datrys anghydfodau.[14] Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud argymhellion tebyg.[15]

20. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi rhannu pryderon ei fod wedi clywed am risg o gyfyngiadau ar bŵer deddfwrfeydd, er enghraifft, pe bai seneddwyr yn cyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth nad oeddent wedi bod drwy'r broses fframweithiau cyffredin.[16]

21. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith wedi tynnu sylw at y ffaith bod gwelliannau yn cael eu gwneud i filiau a allai fynd yn groes i benderfyniadau ar y cyd a wnaed gan lywodraethau, a nododd hefyd nad yw'n glir sut mae'r fframweithiau'n mynd i'r afael â phenderfyniadau seneddol sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad ar y mater hwn, a nodi'n glir beth fyddai canlyniadau penderfyniad gan y Senedd sy'n anghydnaws â phenderfyniadau rhynglywodraethol a wneir drwy'r fframwaith.[17]

Ymwahanu

22. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau nad yw'r

---

[13] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 2
[14] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 10
[15] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 3; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 2
[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, paragraff 7
[17] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin - Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 4

fframwaith caffael cyhoeddus yn cynnig llai o gyfle i ymwahanu nag a fyddai wedi bod yn bosibl yn yr UE.[18]

23. Yn yr un modd, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio cael cytundeb rhynglywodraethol i sicrhau bod fframweithiau yn nodi ym mha feysydd y mae'n dderbyniol ymwahanu, "mewn ffordd glir, cyson a hygyrch".[19]

24. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith hefyd wedi nodi nad yw "effeithiolrwydd y Fframweithiau wedi'i roi ar brawf eto", ac felly nad yw'n bosibl penderfynu "faint o ymwahanu fydd yn dderbyniol" i bob un o'r pedair llywodraeth, na pha mor llwyddiannus fydd y fframweithiau wrth reoli ymwahanu.[20]

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd fframweithiau cyffredin yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddeddfu a llunio polisïau i Gymru.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio pob fframwaith cyffredin i'w gwneud yn glir na ddylai newidiadau i gyfraith a pholisi, mewn meysydd lle'r oedd gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd rheoleiddiol pan oedd y DU yn un o Aelod-Wladwriaethau'r UE, fod yn rhwym i ofynion i wneud penderfyniadau ar y cyd na'n rhwym i'r broses datrys anghydfodau.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol fel bod pob fframwaith cyffredin yn nodi'n glir ym mha feysydd na fydd ymwahanu yn dderbyniol.

[18] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 2
[19] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 14
[20] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin - Adroddiad 1, Mai 2022, paragraff 14

3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rôl rhanddeiliaid wrth lunio polisïau

25. Wrth graffu ar fframweithiau cyffredin, mae pwyllgorau'r Senedd wedi mynegi pryderon ynghylch sicrhau nad yw rôl seneddau neu randdeiliaid yn cael ei gwanhau neu ei chyfyngu o ran deddfu a llunio polisïau.[21]

26. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi nodi nad yw fframweithiau, yn gyffredinol, yn nodi llwybrau diffiniedig i randdeiliaid gyfrannu at benderfyniadau rhynglywodraethol.[22]

27. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru esbonio pryd a sut y bydd rhanddeiliaid yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau o dan y fframweithiau.[23]

28. At hynny, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi pwysleisio y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff barn rhanddeiliaid ar y fframweithiau dros dro ei hystyried cyn i'r fframweithiau gael eu cwblhau.[24]

29. Dywedodd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, yn ei ddau adroddiad ar fframweithiau cyffredin,[25] fod diffyg ymgynghori â rhanddeiliaid yn gwanhau'r fframweithiau.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob fframwaith cyffredin yn nodi'n glir pryd a sut y bydd rhanddeiliaid yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.

---

[21] Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 6; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 18 Mai 2022, paragraff 17; y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 2
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, paragraff 31
[23] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 11
[24] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 1
[25] Tŷ'r Arglwyddi, y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin: Cyhoeddiadau (Saesneg yn unig)

Tryloywder ac adolygu

30. Mae rhai pwyllgorau wedi dweud bod angen mwy o eglurder a thryloywder ar randdeiliaid o ran deddfu a llunio polisïau mewn perthynas â'r fframweithiau.

31. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir i'r Senedd a rhanddeiliaid pan fo polisi yn 'mynd drwy' fframwaith cyffredin,[26] a'i gwneud yn glir os bydd cynigion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi yn deillio o brosesau gwneud penderfyniadau'r fframweithiau cyffredin.[27]

32. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi dweud y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid os cyflwynir deddfwriaeth i'r Senedd sydd o fewn cwmpas y fframweithiau.[28]

33. Argymhellodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn deall cwmpas y fframweithiau cyffredin.[29]

Gweithredu ac adolygu'r fframweithiau

34. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i gyd wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i sicrhau yr eir ati i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth adolygu pob fframwaith cyffredin a'i ddiwygio wedyn.[30]

---

[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 8
[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 9
[28]Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 2
[29] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 13
[30] Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 33; y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 4; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 13

35. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ategu'r argymhelliad hwn,[31] a sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi,[32] ac wedi argymell fod yn rhaid "ymgysylltu mewn modd parhaus, agored ac ystyrlon" â rhanddeiliaid ar weithrediad y fframweithiau.[33]

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir i'r Senedd a rhanddeiliaid pan fo polisi yn cael ei ddatblygu drwy fframwaith cyffredin, ac os bydd cynigion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi yn deillio o brosesau gwneud penderfyniadau'r fframweithiau cyffredin.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i sicrhau yr eir ati i ymgynghori â rhanddeiliaid pan fydd pob fframwaith cyffredin yn cael ei adolygu a'n cael ei ddiwygio ar ôl hynny.

4. Ansawdd fframweithiau cyffredin

36. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi dweud bod deall dogfennau'r fframweithiau cyffredin yn "heriol",[34] gan nodi bod Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi[35] a Phwyllgor Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi mynegi pryderon tebyg.[36] Mae Pwyllgor Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth Senedd yr Alban hefyd wedi galw am i'r iaith a ddefnyddir yn y fframweithiau terfynol fod mor syml a di-jargon â phosibl.[37] Yn yr un modd, dywedodd Pwyllgor Cynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer y Swyddfa Weithredol fod diffyg manylion yn y ddogfennaeth a gafwyd ar gyfer rhai fframweithiau neu fod y wybodaeth yn mynd i gael ei chynnwys mewn mannau eraill, ac felly roedd yn anodd craffu

[31] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 6
[32] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd (Saesneg yn unig), 14 Rhagfyr 2021
[33] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, paragraff 24
[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, paragraff 18
[35] Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Fframweithiau Cyffredin: cyfle heb ei gyflawni? (Saesneg yn unig), paragraffau 156–157, 163–166
[36] Pwyllgor Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon, Papur Safbwynt ar y fframwaith cyffredin ar les anifeiliaid (Saesneg yn unig), paragraff 43
[37] Pwyllgor Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth Senedd yr Alban, Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd a Diwygio Tir (Saesneg yn unig), 16 Tachwedd 2022, tudalen 2

arnynt.[38] Tynnodd sylw at yr iaith dechnegol iawn, yr oedd angen ei hesbonio ymhellach.[39]

37. Mae pwyllgorau'r Senedd wedi mynegi pryderon ehangach hefyd am gymhlethdod y strwythurau llywodraethu a sefydlwyd gan fframweithiau cyffredin unigol.[40] Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymell y dylai fframweithiau unigol gynnwys cylch gorchwyl clir ar gyfer eu holl weithgorau, a diagramau sy'n dangos y berthynas rhyngddynt.[41] Yn yr un modd, mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi datgan bod rhannau o'r fframweithiau a drafodwyd ganddo yn "anodd eu dilyn ac nid ydynt yn eglur iawn", gan argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fframweithiau yn fwy hygyrch.[42]

38. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi nodi gwallau sylweddol mewn sawl fframwaith cyffredin ac anghysondeb o ran y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer gwahanol fframweithiau "heb reswm amlwg".[43] Mae wedi awgrymu bod y problemau hyn yn codi'r cwestiwn pa mor ddifrifol oedd dull gweithredu'r pedair llywodraeth wrth ddatblygu'r fframweithiau cyffredin, i ba raddau y cânt eu defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu deall sut y maent yn gweithio'n ymarferol.[44]

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr y cynhelir ymarfer sicrhau ansawdd llawn cyn cyhoeddi pob fframwaith cyffredin sydd wedi ei gwblhau.

---

[38] Pwyllgor Cynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer y Swyddfa Weithredol, Craffu ar fframweithiau cyffredin yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon (Saesneg yn unig), Mawrth 2022, tudalen 1
[39] Pwyllgor Cynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer y Swyddfa Weithredol, Craffu ar fframweithiau cyffredin yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon (Saesneg yn unig), Mawrth 2022, tudalen 1
[40] Gweler er enghraifft Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, paragraff 19
[41] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 5
[42] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, paragraff 10
[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, paragraff 21
[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, paragraff 24

5. Cyfraith yr UE a ddargedwir

39. Mae pob un o bwyllgorau'r Senedd a fu'n ystyried fframweithiau cyffredin wedi mynegi pryderon am gynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir.

40. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi mynegi pryderon ynghylch effeithiau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar bolisïau a deddfwriaeth i Gymru yn y dyfodol, a'r risg o anghytuno rhynglywodraethol.[45]

41. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi gofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a gytunwyd ar broses ar gyfer newid cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gymwys o dan y fframweithiau, a beth yw'r broses honno.[46] Yn yr un modd, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd newidiadau arfaethedig i gyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn cwmpas y fframweithiau yn mynd drwy brosesau'r fframweithiau perthnasol.[47] Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi gofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i hysbysu'r Senedd am gynigion o'r fath.[48]

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Senedd am y broses ar gyfer newidiadau arfaethedig i gyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn cwmpas pob fframwaith cyffredin.

6. Mecanweithiau datrys anghydfodau

42. Mae pwyllgorau'r Senedd wedi mynegi pryderon ynghylch effaith y prosesau ar gyfer osgoi anghydfodau a nodir yn y fframweithiau y maent wedi eu hystyried, ac yn benodol eu heffaith ar lunio polisïau amserol.

---

[45] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, paragraff 21
[46] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 6
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 21; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 18
[48] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 19

43. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ill dau wedi mynegi pryderon ynghylch oedi posibl o ganlyniad i'r prosesau hyn, ac wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a ddylid nodi terfynau amser yn y prosesau osgoi anghydfodau.[49]

44. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith hefyd yn bryderus y gallai prosesau osgoi anghydfodau arwain at oedi cyn cyflwyno polisïau a deddfwriaeth i Gymru.[50]

45. Mae pwyllgorau'r Senedd hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw fframweithiau unigol yn cyfeirio at y broses osgoi a datrys anghydfodau a nodir yng nghanlyniad yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol.[51] Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i gyd wedi argymell y dylid diweddaru'r fframweithiau i adlewyrchu'r broses osgoi a datrys anghydfodau a sefydlwyd.[52]

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru pob fframwaith cyffredin i adlewyrchu'r Broses ar gyfer Osgoi a Datrys Anghydfodau Anghydfod a nodir yng nghanlyniad yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a ddylid nodi terfynau amser yn y prosesau ar gyfer osgoi anghydfodau a geir ym mhob fframwaith cyffredin.

---

[49] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 2; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 9

[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Paragraffau 56-58; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Paragraff 25

[51] Llywodraeth y DU, Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol, Atodiad D: Y broses ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau (Saesneg yn unig)

[52] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 3; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 10; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Mehefin 2022, Argymhelliad 8; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 16

7. Tryloywder

46. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ill dau wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol ar gyfer pob fframwaith cyffredin y mae wedi ei ystyried er mwyn darparu bod deddfwrfeydd yn cael eu hysbysu am anghydfodau sydd wedi'u trosglwyddo i lefel weinidogol.[53]

47. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi ategu'r argymhellion hyn, ac wedi argymell y dylid hefyd hysbysu deddfwrfeydd am ganlyniad unrhyw anghydfodau.[54]

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol er mwyn sicrhau bod pob fframwaith cyffredin yn darparu bod deddfwrfeydd yn cael eu hysbysu am anghydfodau sydd wedi'u trosglwyddo i lefel gweinidogol, a'u bod yn cael eu hysbysu am ganlyniadau anghydfodau.

8. Adolygu ac adrodd

48. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi nad oes llawer o wybodaeth yn y fframweithiau y mae wedi'u hystyried am y gwaith parhaus o gyflwyno adroddiadau i ddeddfwrfeydd a rhanddeiliaid.[55] Yn yr un modd, mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi mynegi pryderon am y diffyg cyfeiriadau at ymgysylltu parhaus gan ddeddfwrfeydd yn y fframweithiau y mae wedi'u hystyried, a'r diffyg mecanweithiau i gefnogi'r gwaith o graffu ar fframweithiau unwaith y byddant ar waith.[56]

49. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio cael cytundeb rhynglywodraethol i gyhoeddi unrhyw adroddiadau ar y cyd ar weithredu pob fframwaith, ac os na

---

[53] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 19; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 8
[54] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 8
[55] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, paragraff 15
[56] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin - Adroddiad 1, Mai 2022, paragraff 28

sicrheir cytundeb o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun.[57]

50. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig hefyd wedi dweud y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i sicrhau y cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar weithrediad y fframweithiau.[58] Yn yr un modd, mae Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi dweud y dylid datblygu proses 'ar frys' ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn barhaus i ddeddfwrfeydd.[59]

51. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi nodi'r hyn y dylid ei gynnwys fel isafswm, ym marn y Pwyllgor, mewn adroddiadau blynyddol, gan gynnwys manylion am ymwahanu, cyfyngiadau ar gymhwysedd datganoledig, a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol.[60]

52. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus o'r farn y dylai adroddiadau gan Lywodraeth Cymru ar y fframweithiau gynnwys sylwebaeth berthnasol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE a gweithgarwch rhyngwladol.[61]

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i sicrhau y cyflwynir adroddiadau rheolaidd i ddeddfwrfeydd ar weithrediad pob fframwaith. Os na sicrheir cytundeb o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad yn rheolaidd i'r Senedd ar weithrediad parhaus pob fframwaith cyffredin.

53. Mae pob un o bwyllgorau'r Senedd sydd wedi ystyried fframweithiau cyffredin wedi gwneud argymhellion tebyg ar gyfer ymgysylltu seneddol wrth adolygu'r fframweithiau a'u diwygio wedyn.[62] Mae Pwyllgor Craffu ar

---

[57] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 4
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 32
[59] Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Fframweithiau Cyffredin: cyfle heb ei gyflawni? (Saesneg yn unig), paragraff 192
[60] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 6
[61] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 5
[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 33; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 10; y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a

Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi argymell y dylid sicrhau bod deddfwrfeydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus yr holl fframweithiau ar ôl i'r adolygiadau a drefnwyd ddod i ben.[63]

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i sicrhau bod pob fframwaith cyffredin yn darparu ar gyfer ymgysylltu â deddfwrfeydd yn ystod y broses o'i adolygu a'i ddiwygio wedyn, ac ar gyfer cyflwyno adroddiad i ddeddfwrfeydd ar ôl i adolygiad ddod i ben.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn rheolaidd ar weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn, yn enwedig y rhai sy'n gofyn am gytundeb rhynglywodraethol.

9. Y Protocol ar gyfer Iwerddon a Gogledd Iwerddon

54. O dan y Protocol ar gyfer Iwerddon a Gogledd Iwerddon, mae rhai o gyfreithiau'r UE yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon, ac mae hynny wedi arwain at fynegi pryderon am effaith achosion o ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

55. Ym mis Chwefror 2023, cytunodd Llywodraeth y DU a Chomisiwn yr UE ar Fframwaith Windsor i wneud newidiadau i'r Protocol.[64] Amser a ddengys a fydd y fframweithiau yn destun adolygiad o ganlyniad i'r cytundeb, ac a fydd yn cael effaith ar y rhaglen fframweithiau cyffredin yn ei chyfanrwydd.

56. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am fesurau y cytunwyd arnynt i leihau effeithiau niweidiol ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ganlyniad i'r Protocol mewn meysydd polisi sy'n destun fframweithiau cyffredin.[65] Mae wedi argymell y dylid defnyddio geiriad safonedig

---

Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 4; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 7; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Mehefin 2022, Argymhelliad 4

[63] Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Fframweithiau Cyffredin: cyfle heb ei gyflawni? (Saesneg yn unig), paragraff 193

[64] Llywodraeth y DU, Papur polisi: Fframwaith Windsor (Saesneg yn unig), 27 Chwefror 2023

[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 23

ym mhob fframwaith mewn perthynas ag adolygu achosion o ymwahanu yng Ngogledd Iwerddon, ac wedi gofyn a fyddai'n fuddiol i lywodraethau Prydain Fawr ddilyn yr un trywydd.[66]

57. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi argymell yn yr un modd y dylai fframweithiau gynnwys manylion ychwanegol ynglŷn â phryd y bydd newidiadau a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Protocol yn cael eu hystyried drwy'r fframweithiau.[67] At hynny, gofynnodd i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn asesu'r risgiau a'r manteision i Gymru o gyd-fynd â'r newidiadau a wneir yng Ngogledd Iwerddon a'r UE; a beth fydd ei safbwynt mewn trafodaethau rhynglywodraethol ar y materion hyn.[68]

58. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi cytuno ag argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi y dylai fframweithiau cyffredin sy'n cydblethu â'r Protocol ddarparu bod y partïon perthnasol yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am ddeddfwriaeth sydd i ddod gan yr UE.[69]

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i gynnwys y testun a ganlyn fel rhan o'r geiriad safonol ynghylch y Protocol ym mhob fframwaith cyffredin: *"Os bydd rhaid i Ogledd Iwerddon ymwahanu er mwyn sicrhau cydraddoldeb â'r UE, dilynir yr un broses adolygu a gwneir yr un asesiadau er mwyn penderfynu a fyddai'n fuddiol i Brydain Fawr ddilyn yr un trywydd neu ganiatáu ymwahanu."*

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn asesu'r risgiau a'r manteision i Gymru o gyd-fynd â'r newidiadau deddfwriaethol perthnasol a wneir yng Ngogledd Iwerddon a'r UE.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i sicrhau bod pob fframwaith cyffredin sy'n cyd-blethu â'r Protocol yn cael ei ddiweddaru er mwyn sicrhau bod y partïon perthnasol yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am ddeddfwriaeth yr UE sydd i ddod.

---

[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 24
[67] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 22
[68] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 23
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 25

10. Deddf y Farchnad Fewnol

59. Mae pwyllgorau'r Senedd wedi trafod materion yn ymwneud â'r ffordd y mae *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* yn rhyngweithio â'r fframweithiau cyffredin. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymell y dylid diweddaru'r fframweithiau i gydnabod unrhyw achosion o ryngweithio â Deddf y Farchnad Fewnol.[70]

60. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi argymell y dylid cynnwys asesiad o effaith Deddf y Farchnad Fewnol ar ddeddfwriaeth i Gymru mewn meysydd sy'n destun fframweithiau mewn adroddiadau blynyddol ar fframweithiau.[71]

61. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ill dau wedi nodi nad yw'r fframweithiau y maent wedi eu hystyried yn cyfeirio at y broses ar gyfer ystyried gwaharddiadau o dan Ddeddf y Farchnad Fewnol mewn meysydd fframwaith cyffredin[72], gan argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am gytundeb rhynglywodraethol i gydnabod y broses hon.[73]

62. Yn yr un modd, mae Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi dweud fel a ganlyn am Ddeddf y Farchnad Fewnol:

> *"... [it] has damaged intergovernmental relations. This means it is all the more important that the exclusions process, which is*

---

[70] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 6; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 21; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Mehefin 2022, Argymhelliad 18; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 20

[71] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022, Argymhelliad 6

[72] Llywodraeth y DU Y broses ar gyfer ystyried eithriadau i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU mewn meysydd Fframwaith Cyffredin (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2021

[73] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022, Argymhelliad 21; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Mehefin 2022, Argymhelliad 18; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 20

essential for mitigating the effects of the Act, is made explicit in all relevant frameworks."[74]

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio pob fframwaith cyffredin i gynnwys cyfeiriad at *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* a'r broses ar gyfer ystyried eithriadau i'r Ddeddf, a chytuno arnynt, mewn meysydd sy'n destun fframwaith cyffredin.

11. Y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau

63. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi cytuno â Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi y dylai adolygiadau o'r fframwaith cyffredin Cymorth Amaethyddol gynnwys dadansoddiad o'r ffordd y mae'n rhyngweithio â *Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022*.[75]

64. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi pwysleisio hefyd fod diffyg eglurder o ran sut y gallai'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau effeithio ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru, ac mae wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r mater hwn.[76]

65. Mae Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi gwneud beirniadu'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau yn fwy cyffredinol, gan ddweud ei fod yn cyfyngu ar ryddid y gweinyddiaethau datganoledig i weithredu o fewn eu meysydd cymhwysedd eu hunain.[77] Argymhellodd y dylai Llywodraeth y DU ystyried sut y gallai'r ddeddfwriaeth a gyflwynir ganddi wrthdaro â'r fframweithiau cyffredin perthnasol, rhwystro eu gweithrediad llwyddiannus, ac effeithio ar iechyd yr Undeb.[78]

---

[74] Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Fframweithiau Cyffredin: cyfle heb ei gyflawni? (Saesneg yn unig), paragraff 69
[75] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 40
[76] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 5
[77] Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Fframweithiau Cyffredin: cyfle heb ei gyflawni? (Saesneg yn unig), paragraff 79
[78] Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Fframweithiau Cyffredin: cyfle heb ei gyflawni? (Saesneg yn unig), paragraff 80

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd am effaith *Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022* ar fframweithiau cyffredin perthnasol.

12. Rhwymedigaethau a pholisi rhyngwladol

66. Fel rhan o'i waith craffu ar fframweithiau cyffredin, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi tynnu sylw at y diffyg manylion a roddir yn y fframweithiau cyffredin perthnasol ynghylch y ffordd y maent yn rhyngweithio â rhwymedigaethau rhyngwladol.[79]

67. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae fframweithiau yn arfer dulliau gwahanol o ran eu rôl yn y broses o ddatblygu polisi rhyngwladol,[80] ac mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n effeithiol yn hyn o beth.[81]

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio pob fframwaith cyffredin perthnasol i gynnwys manylion am sut y bydd llywodraethau'r DU yn cydweithio ar rwymedigaethau a pholisi rhyngwladol.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r trefniadau a wnaed eisoes i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n effeithiol wrth ddatblygu polisi rhyngwladol y DU yn y meysydd fframwaith cyffredin perthnasol.

---

[79] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022, tudalen 5
[80] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 26
[81] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022, Argymhelliad 27

Atodiad: Adroddiadau a gohebiaeth a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn gwneud argymhellion ar fframweithiau cyffredin

Fframwaith cyffredin	Y Pwyllgor cyfrifol	Adroddiad neu ohebiaeth
Amddiffyn iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd	Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mawrth 2022
Amrywogaethau a hadau planhigion	Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022
Ansawdd aer	Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith	Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022
Caffael Cyhoeddus	Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	Llythyr at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Mehefin 2022
Cemegion a phlaladdwyr	Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith	Fframweithiau Cyffredin – Adroddiad 1, Mai 2022
Cymorth amaethyddol	Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022
Cynhyrchion Organig	Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022
Diogelwch ac ansawdd gwaed	Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mawrth 2022

Fframwaith cyffredin	Y Pwyllgor cyfrifol	Adroddiad neu ohebiaeth
Fframwaith cyffredin ar gyfer safonau cyfansoddiad bwyd a labelu	Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Mehefin 2022
Fframwaith Cyffredin ar Wrtaith	Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022
Iechyd a lles anifeiliaid	Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022
Iechyd planhigion	Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022
Organau, meinweoedd a chelloedd (ac eithrio embryonau a gametau)	Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mawrth 2022
Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd	Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	Fframweithiau Cyffredin, Rhagfyr 2022
Taliadau hwyr (trafodion masnachol)	Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	Llythyr at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Mehefin 2022